

LLETY MYFWRWYR

Cytundebau Tenantiaeth Breifat/Y Gyfraith/Hawliau cyfrifoldebau a Rhwymedigaethau

Bydd llawer o fyfwrwyr yn dychwelyd am y 2r^{il} neu'r 3^{ydd} flwyddyn astudio ac yn wynebu'r posiblwydd o ansicrwydd gyda'u cytundebau llety o ganlyniad i COVID-19. Pan fydd dyddiadau dechrau'r Brifysgol yn amrywio neu'n hwyr, rydym wedi nodi rhywfaint o wybodaeth er mwyn i chi allu cael dealltwriaeth gliriach o'ch cytundeb llety.

Gall y wybodaeth hon newid yn ôl ac ar y cyd ag unrhyw newidiadau gan y Llywodraeth.

I gael unrhyw wybodaeth fanwl am ganllawiau'r Llywodraeth ewch i:-

<https://gov.wales/renting-from-private-landlord>

Cytundebau tenantiaeth sydd eisoes wedi'u llofnodi ar gyfer Medi 2020

Mae myfwrwyr sydd wedi sicrhau llety cyn tymor Prifysgol yr Hydref yn dal yn gorfol cyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol. Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw newidiadau i ganllawiau'r Llywodraeth na'r awdurdod lleol i ddangos eich bod yn gallu gadael eich cytundeb tenantiaeth. Hyd yn oed os nad ydych yn symud i mewn i'r eiddo, chi a'ch 'grŵp' fydd yn atebol am y rhent.

Gan fod y contractau rhwng y myfyriwr/myfwrwyr a'r landlord/asiant, cynghorir y myfwrwyr i siarad yn uniongyrchol â'u landlord/asiant i weld a oes modd i'r partïon gytuno ar drefniant a negodwyd.

Os ydych yn ei chael yn anodd talu eich rhent, gallwch:-

- Siarad â'ch landlord neu asiant gosod.
- Parhau i dalu rhent (os gallwch).

Cytuno ar gynllun ad-dalu. Efallai y bydd landlordiaid yn cael gwyliau o'r taliad morgais gan eu benthyciwr morgeisi, holwch nhw am hyn pan fyddwch yn siarad â nhw. Gall hyn olygu y gallwch oedi cyn talu'r rhent hefyd.

<https://gov.wales/higher-education-and-student-support-coronavirus>

Mae'r wefan uchod yn wybodaeth arbenigol am gymorth i fyfwrwyr yn ystod pandemig coronafeirws – Diweddarwyd 12 Mehefin 2020 ddiwethaf. Mae llawer o gwestiynau'n cael eu hateb yma.

Troi allan – mae newid dros dro yn y gyfraith ynghylch troi allan (hyd at 30 o Fedi 2020). Gan ddod i rym ar 27ain Mawrth 2020, rhaid i'ch landlord roi o leiaf 3 mis o rybudd i'ch troi allan

Gall eich landlord gyflwyno hysbysiad o hyd, ond ni fydd yn gallu gwneud hawliad meddiant am 3 mis. Ni all eich landlord eich troi allan heb orchymyn llys.

<https://www.citizensadvice.org.uk/wales/about-us/contact-us/contact-us/contact-us/>

Rhoi mynediad i'ch cartref

Dylai eich landlord neu asiant gosod gytuno i ohirio pob ymweliad nad yw'n hanfodol i'ch cartref.

Mae hyn yn cynnwys:

- gweld eiddo, os ydych chi'n dod i ddiwedd eich tenantiaeth
- archwiliadau tenantiaeth arferol
- gwasanaethau glanhau

Gall eich landlord ymweld â'ch cartref os oes problem ddifrifol sy'n ei gwneud yn annogel i fyw ynddo.

Gallai hyn gynnwys:

- to sy'n gollwng
- boeler wedi torri
- mater plymio ac ni allwch ymolchi na defnyddio'r toiled
- peiriant golchi, oergell neu rewgell sydd wedi torri ac ni allwch olchi dillad na storio bwyd yn ddiogel
- ffenestr wedi torri neu ddrws allanol
- Os yw person anabl angen ei offer arbenigol wedi'i drwsio neu ei osod

Dylai eich landlord neu asiant gosod ystyried ffyrdd eraill o asesu eich cartref. Gallai hyn gynnwys eich bod yn tynnu lluniau, fideo neu alwad fideo.

Os bydd rhywun yn ymweld â'ch cartref i ddatrys problem ddifrifol Mae angen iddyn nhw (a chi) **ddilyn y canllawiau ar ymbellhau'n gorfforol yn y gweithle**. Dylech hefyd **ddilyn y rheolau ymbellhau cymdeithasol**.

Os yn bosibl dylech aros mewn ystafell wahanol i'r man lle mae'r gwaith yn cael ei wneud.

Gall arolygwyr neu weithwyr cynnal a chadw ymweld ag eiddo i wneud archwiliad diogelwch nwy neu drydanol o hyd. Os ydych yn byw mewn fflat gallant hefyd ymweld â'ch cartref i archwilio a phrofi'r larwm Tân a'r system goleuadau argyfwng.

Os ydych yn pryderu am gyflwr eich cartref, dylech siarad â'ch landlord neu asiant gosod er mwyn iddynt allu trefnu'r gwaith atgyweirio angenrheidiol. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i fynd i'r afael â phroblemau yn yr eiddo ar dudalen **gwefan Digs Caerdydd**.

Ffynonellau eraill ar gyfer Cyngor ar dai:

Mae'r wybodaeth a'r cymorth ar gyfer gwasanaethau canolfannau tai eraill a'u manylion cyswllt ar gael ar y dudalen we hon:

<https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Housing/homelessness/housing-options-centre/Pages/default.aspx>

Mae'n bosibl y bydd Shelter hefyd yn gallu rhoi cyngor a chymorth.

<https://sheltercymru.org.uk/>

Benthyciadau i fyfyrwyr/anawsterau ariannol

Dylai myfyrwyr sy'n dychwelyd a newydd dderbyn eu benthyciadau myfyrwyr fel arfer ar gyfer blwyddyn academaidd 2020, ond os ydych yn wynebu anawsterau ariannol Mae ein tîm gwasanaethau myfyrwyr wrth law i helpu gyda chyngor a gallant eich tywys i gael cymorth ariannol pellach.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi ymestyn eu dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau tan 30ain Mehefin 2020.

Myfyrwyr MET CAERDYDD

Gall myfyrwyr Met Caerdydd fod yn gymwys am ' gronfa gymorth ' os ydych yn cael trfferth ariannol ac mae ffurflenni cais ar gael yn

Studentsupportfund@cardiffmet.ac.uk. Nodwch, nid yw'r gwobrau hyn ar gael i fyfyrwyr blwyddyn olaf.

Os oes pryderon am arian neu angen cyngor ar gyllidebu, gallwch drefnu apwyntiad gydag ymgynghorydd arian ar CanolbwyntMet@cardiffmet.ac.uk neu drwy gysylltu â financeadvice@cardiffmet.ac.uk. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael drwy gydol yr haf.

Myfyrwyr sy'n dychwelyd – os nad ydych wedi gwneud cais am gyllid myfyrwyr, rydym yn argymhell eich bod yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich cyllid myfyrwyr ym mis Medi.

Myfyrwyr Met Caerdydd-edrychwrch yn eich mewnflwrch e-bost Met Caerdydd ar gyfer eich cylchlythyr gwasanaethau myfyrwyr misol ar gyfer eich diweddarriadau iechyd, lles a chyflwynwyedd.

Cyngor ar lety: accomm@cardiffmet.ac.uk

Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

<https://www.cardiff.ac.uk/study/student-life/student-support>

Tîm Cyngor ac Arian: adviceandmoney@cardiff.ac.uk

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyngor ymarferol ar ariannu ac agweddau eraill ar eich bywyd fel myfyriwr, gyda chyngor diduedd, diragfarn a chyfrinachol ar ystod eang o faterion, cliciwch ar y ddolen isod am gyngor pellach:

- [Arian](#)
- [Cyllid y GIG](#)
- [Ysgoloriaethau](#)
- [Bwrsariaethau](#)

Cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol:

<https://www.cardiff.ac.uk/study/student-life/student-support/international-student-support>

Cyngor i fyfyrwyr – tai: Advice@cardiff.ac.uk

Myfyrwyr Prifysgol De Cymru (USW)

Cyngor ar arian myfyrwyr:

<https://studentmoney.southwales.ac.uk/>

Parth Cyngor ar-lein – system cymorth i fyfyrwyr ar-lein USW, siop un stop ar gyfer pob ymholaeth.

<https://advice.southwales.ac.uk/advice-zone-online/>

Gwasanaethau llety: accom@southwales.ac.uk